

Adeiladu Rafft

Cynllun Dysgu Awyr Agored

<p>Arweinydd y Sesiwn:</p>	<p>Nifer y plant: 15-60</p>	<p>Ystod oedran: Sylfaen - CA4</p>
<p>Lleoliad: E.e. Tiroedd Ysgol, Parc, Coetir, Traeth</p> <p>O.N. - Os ydych yn ceisio adeiladu rafftiau mwy a'u defnyddio ar ddŵr, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n asesu'r risgiau, yn addasu'r gweithgaredd yn unol â hynny, ac yn cael digon o oedolion i oruchwylio gweithgaredd yn y dŵr.</p>	<p>Adnoddau: Bydd hyn yn dibynnu ar ba opsiwn rydych chi'n ei redeg ac oedran y rheiny sy'n cymryd rhan. Llinyn/rhaff (Teganau – anifeiliaid/pobl)</p> <p>NEU</p> <p>Deunyddiau adeiladu rafft/stretsier, gan gynnwys gwialennod cyll, rhaff, sisyrnau, tarpolin, teiars, planciau ac ati.</p>	<p>Meini Prawf Llwyddiant: Bydd pawb yn cymryd rhan mewn gweithgaredd adeiladu ymarferol</p> <p>Sylfaen – CA1 Byddant yn adeiladu rafftiau bach</p> <p>CA2-4 Byddant yn adeiladu stretsiers neu rafftiau</p> <p>Bydd pawb yn ystyried sut deimlad yw hi i gael eich dal mewn llifogydd, a sut y gall pobl weithio gyda'i gilydd i orosi'r broblem hon a allai gael ei hachosi gan newid yn yr hinsawdd. Gellid cynnal trafodaeth berthnasol helaeth yn yr ystafell ddosbarth cyn, ar ôl neu yn ystod y gweithgaredd, yn arbennig ar gyfer myfyrwyr hŷn, gan gynnwys gwneud cyswllt â</p>
<p>Pwnc: Adeiladu Rafft</p>	<p>Amcan Dysgu (Sail Resymegol): Gweithio gyda'n gilydd i oresgyn problem – bod angen rafft. Datblygu dealltwriaeth o effaith</p>	
<p>Amser: 90 mun - 2 awr</p>		

		<p>llifogydd. Nod y sesiwn a sut mae'n cysylltu â dysgu am Newid yn yr Hinsawdd: Mae digwyddiadau tywydd eithafol fel llifogydd yn bygwth cymunedau wrth i'r hinsawdd dyfu'n gynhesach. Mae dysgu am sut y gall pobl addasu a chadw ar yr wyneb yn annog datrys problemau a gwydnwch.</p>	<p>deunyddiau adeiladu cynaliadwy.</p>
5 mun	Cylch	Briff ffiniau a diogelwch	<p>Diffiniwch ffiniau'r sesiwn, unrhyw goed meirw, ardaloedd na ellir mynd iddynt.</p>
5 mun		Gêm boethi	<p>Seinwedd storm fellt a tharanau -adeiladwch hyn i fyny o amgylch y cylch. Ffordd hawdd o wneud hyn yw gofyn i bawb o amgylch y cylch i gopïo'r person nesaf atynt, ond dim ond y person hwnnw. Fel hyn, gallwch symud y sain ymlaen o amgylch y cylch a'i adeiladu. Rydych chi'n dechrau hyn drwy dapio un bys blaen ar y bys blaen arall. Mae'r person ar yr ochr chwith yn copïo chi, yna'r person nesaf, yna'r nesaf. Mae pob un ohonoch yn dal ati i dapio nes i chi fynd yr holl ffordd o amgylch y cylch ac yn ôl i'r dechrau. Nesaf, newidiwch i 2 fys yn tapio, a chopïwch hyn o amgylch y cylch... 3 bys, 4 bys, curo dwylo'n llawn, y ddwy law ar eich gliniau, stampio, yna mynd yn ôl i'r cychwyn yn yr un ffordd. Os ydych chi eisiau ychwanegu mellt</p>

			a tharanau, gallwch wneud y synau hyn gydag offerynnau taro neu leisiau.
15 mun	Cylch	Trafodwch yr Amcan Dysgu a rhannwch wybodaeth	<p>Dywedwch stori am lifogydd - os yn bosibl, am lifogydd lleol, a sut y gwnaeth pobl gyd-dynnu i helpu ei gilydd. Gallwch sôn hefyd am rywfaint o lifogydd mewn gwledydd eraill yn ystod y blynyddoedd diwethaf.</p> <p>NEU</p> <p>fe allech chi ddefnyddio stori'r Beibl - Arch Noa</p> <p>NEU</p> <p>stori'r llifogydd yn y llyfr 'The Natural Storyteller ' gan Georgiana Keable a storïau am lifogydd mewn llyfod eraill.</p>
10 mun	Parau, grwpiau bychain	Gweithgaredd i ddatblygu/cyfnert hu wybodaeth,	<p>Os ydych chi'n gwneud rafftau bach - gwnewch bobl o gerrig - dewiswch garreg, carreg fach neu gragen i'w cynrychioli. Gallech dynnu lluniau arnynt yn defnyddio beiros ffelt tip. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio fel pobl ar gyfer y rafftau bach, i weld a ydynt yn gallu arnofio a chario rhywun.</p> <p>NEU</p> <p>Cwrs rhwystrau - crëwch neu ceisiwch ddod o hyd i rwystr.</p>

<p>5 mun neu fwy, yn dibynnu ar y drafodaeth</p>	<p>Cylch</p>	<p>Rhannwch y darganfyddiadau yn gryno Cyflwynwch weithgaredd creadigol a thrafodaeth amdano</p>	<p>Rhowch gynnig ar y rhwystrau - pwy syrthiodd? - a allai rhywun arall eich helpu yn y rhannau anodd hynny?</p> <p>I fynd â hyn ymhellach-trafodwch a yw adeiladu rafft yn ymateb i lifogydd byr, llifogydd fflach neu lifogydd mawr hirdymor. Ystyriwch (os oes gennych amser), beth fydddech chi'n dod gyda chi (ydych chi'n cynnwys y ci?), ble y bydddech chi'n cysgu, beth fydddech chi'n ei wneud am fwyd yn y tymor byr a'r hirdymor? Pa wahaniaeth y gallai ei wneud yn eich cornel chi o'r byd?</p> <p>Sut beth fyddai byw ar dŷ sy'n arnofio? Beth os nad oedd unrhyw ffyrdd, dim ond afonydd? Beth pe byddai'n rhaid i chi dyfu bwyd ar rafft fel y gerddi arnofio yn Bangladesh?</p> <p>Gallai'r gweithgaredd adeiladu rafft ymarferol arwain ymlaen o drafodaeth ddyfnach am y materion hyn yn yr ystafell ddosbarth.</p> <p>Gweler diwedd yr adnodd hwn am syniadau pellach ar hyn fel y crybwyllir isod.</p>
<p>15 - 30 mun</p>	<p>Cylch</p>	<p>Rhannwch wybodaeth i gefnogi dysgu i grwpiau hŷn</p>	<p>Llifogydd yw un o ganlyniadau datgoedwigo a newid yn yr hinsawdd. Trafodwch rôl coedwigoedd mewn sefydlogi'r hinsawdd, ac mewn ein hamddiffyn rhag llifogydd. Unwaith eto, gellid gwneud llawer o hyn yn yr</p>

			<p>ystafell ddosbarth cyn neu ar ôl y gweithgaredd, a dim ond cyfeirio ato pan fyddwch y tu allan.</p> <p>Gweler rhagor o wybodaeth ddefnyddiol ar ddiwedd yr adnodd hwn.</p>
15 mun	Cylch / unigolyn	Dysgwch sut i wneud rhywfaint o gylymau i'w defnyddio ar eich rafft.	<p>Dewisol ar gyfer grwpiau hŷn neu os oes gennych fwy o amser: -</p> <p>Dysgwch sut i wneud hanner cwlwm, cwlwm carrai esgid, cwlwm clof a rhwymo sgwâr</p>
25 mun neu hirach	Grwpiau	Gweithgaredd creadigol	<p>Adeiladu rafft – Mae sawl ffordd o wneud hyn:</p> <p>1: Mae'n haws gwneud fersiwn bach o rafft ac mae'n cymryd llai o amser - Crëwch rafft yn defnyddio ffyn, dail a thipyn o liny, a fydd yn gallu arnofio a chario person wedi'i wneud o garreg neu anifail tegan.</p> <p>2: Rafft maint llawn ar dir - defnyddiwch gyll neu wialennod tebyg a rhaff, a chrëwch stretsier a fydd yn gallu cael ei ddefnyddio i gario un person neu eich holl fagiau.</p> <p>3: Defnyddiwch deiars, planciau, gwialennod a rhaff - a chrewch rafft i gario eich grŵp ar draws y dŵr.</p> <p>Os ydych chi'n ceisio adeiladu rafftiau mwy a'u defnyddio ar ddŵr, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n asesu'r risgiau,</p>

			yn addasu'r gweithgaredd yn unol â hynny, ac yn cael digon o oedolion i oruchwylio gweithgarwch ar y dŵr.
10 mun	Fel 1 neu 2 grŵp	Adborth o weithgaredd Creadigol - cyflwyniad gan blant	<p>1: Rhowch gynnig ar y rafftiau – ydyn nhw'n arnofio? Ydyn nhw'n gallu dal unrhyw bwysau? Faint?</p> <p>2: Defnyddiwch y stretsier i gario rhywbeth / rhywun. A fyddai'n gweithio ar ddŵr? Pam neu pam ddim? Sut allwn ni ei newid?</p> <p>3: Ewch ar y rafftiau gyda goruchwyliaeth – byddwch angen afon sy'n symud yn araf neu draeth bas ar ddiwrnod tawel.</p>
5 mun	Fel 1 grŵp	Gêm - i weddu'r hwyliau / grŵp	<p>Rhyddid i chwarae gyda'n rafftiau a'n rhwystrau</p> <p>NEU</p> <p>Plis Mr Crocodeil, a gaf i groesi'r dŵr? Dim ond os ydych chi'n gwisgo Glas/os yw eich enw yn dechrau gyda R/os ydych chi'n hoffi bwyta afalau ac ati</p>
10 mun	Cylch	Adolygwch y dysgu, adlewyrchwch ar brofiad	<p>Seinwedd storm mellt a tharanau unwaith eto, gyda phlentyn yn ei arwain.</p> <p>NEU</p> <p>pacio i fyny a chario'r offer yn ôl</p> <p>NEU</p>

			Mynd o gwmpas y cylch yn myfrio ar her neu problem a ddatryswyd heddiw.
--	--	--	--

Atodiad: Rhagor o wybodaeth am Lifogydd

Mae Maint Cymru yn rhedeg prosiect yn Zimbabwe gyda Kariba REDD + gyda phobl Tonga sydd ' Yn draddodiadol... yn trin gerddi ar lannau ffrwythlon yr afon, a cholodd llawer eu tir ar hyd glannau Afon Zambezi pan wnaeth Llyn Kariba orlifo... ' Trafodwch sut mae pobl yn cyd-dynnu mewn argyfwng, ond bod atebion tymor hir hefyd.

Gellir gwneud cysylltiadau i Uganda, tirlithriad Bukalasi yn 2018, a'r dinistr a achosodd. Arweiniodd datgoedwigo at ansefydlogi'r tir, felly pan ddaeth y llifogydd, nid oedd y coed yno i ddal y ddaear wlyb yn ôl a'i atal rhag dymchwel.

Dywedodd tyst llygad 'Disgynnodd y Mynydd.' Aeth popeth yn ei lwybr. Roedd yn anodd credu'r golygfeydd oherwydd, wrth i mi edrych ar orlifdiroedd, roedd pobl yn dweud wrthyf ychydig oriau'n unig cyn hynny, bod siopau, ysgolion a chartrefi'n sefyll yno.

Ar y pwynt hwn, gall grwpiau neu barau drafod ac wedyn rhoi adborth ar ba atebion tymor hir y gellid eu cael mewn manau lle mae datgoedwigo a dadsefydlogi tir wedi digwydd? Gellir trafod hyn mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft

- trafod enghreifftiau o lifogydd maen nhw neu bobl maen nhw'n adnabod, wedi bod yn rhan ohono
- trafod llifogydd ac atebion presennol a phosibl yng Nghymru ac mewn

ardaloedd coedwigoedd glaw

- Gallai trafod defnydd cynaliadwy o goedwigoedd arwain at drafodaeth ar ddeunyddiau adeiladu cynaliadwy, a sut i sicrhau bod deunyddiau'n dod o ffynhonnell gynaliadwy.
- rôl elusennau fel Maint Cymru o ran cefnogi cymunedau i ail-adeiladu a datblygu atebion hirdymor.
- trafod sut y gallwn, a sut y bydd angen i ni efallai, addasu yn sgil gofynion newid yn yr hinsawdd yng Nghymru ac mewn ardaloedd coedwigoedd glaw lle mae Maint Cymru yn gweithio.

Gallai hefyd arwain at edrych ar rai o'r gweithgareddau eraill ac adnoddau Main Cymru fel edrych ar Brosiectau Coedwigoedd Glaw Maint Cymru a sut maen nhw'n cysylltu â'r nodau datblygu cynaliadwy.

Mae adnoddau ar gael gan y mudiad Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd, sy'n ymwneud â llifogydd yng Nghymru..

<https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/education-learning-and-skills/looking-for-learning-resources/?lang=en>